TGAU

3010N10-1

**DYDD GWENER, 14 MEHEFIN 2024 – BORE**

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

## UNED 1: Barddoniaeth

## HAEN SYLFAENOL

**1 awr 15 munud a'ch amser estynedig**

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.

UN CWESTIWN GORFODOL ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.

Ni allwch ddefnyddio geiriaduron.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

(Trowch y dudalen)

1. **Darllenwch y DDWY gerdd ganlynol yn ofalus.**
**Yn y cerddi, mae'r beirdd yn mynd â ni i fyd perthynas rhwng dau berson.**

**CYMHARWCH y DDWY gerdd gan ddangos sut maen nhw'n DEBYG a/neu'n WAHANOL.**
**Dylech wneud hyn drwy:**

- **ysgrifennu am gynnwys y ddwy gerdd yn eich geiriau eich hun, er enghraifft:**

– **Pa fath o ddarlun o berthynas mae'r ddau fardd yn ei ddisgrifio i ni?**
– **Ydy'r ddau fardd yn sôn am geisio dod o hyd i berthynas mewn ffyrdd gwahanol?**
– **Meddyliwch beth yw'r neges yn y ddwy gerdd.**

- **edrych ar y ffordd mae'r beirdd wedi ysgrifennu'r cerddi gan chwilio am O LEIAF BEDAIR NODWEDD ARDDULL / MESUR a dweud pam maen nhw'n effeithiol**

- **nodi pa UN o'r ddwy gerdd apeliodd fwyaf atoch chi gan roi rhesymau dros eich barn.**

**Wrth ateb, cofiwch DDYFYNNU'N BRIODOL A CHYFEIRIO AT ENGHREIFFTIAU PENODOL i gefnogi'ch sylwadau. [40 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

## Y FERCH WRTH Y BAR YNG NGHLWB IFOR

**Yn fan hyn, aeafau'n ôl,
yn ddifaddau o feddwol,
fe'i gwelais; estynnais stôl.**

**Ordrais beint ar draws y bar
a'i gwylio, yn llawn galar,
yn ei sgert trwy'r mwg sigâr.**

**Yn ei llygaid tanbaid hi
roedd 'na gefnfor o stori,
a hyder a direidi**

**yn eu llawnder i'n herio,
trwy ryw wyrth, y dôi ein tro
ond a dal i'w lled-wylio...**

**Ym mrad yr edrychiadau,
yn sŵn ein dawns ni ein dau,
am ei swyn mi es innau**

**yn rhy ddedwydd freuddwydiol,
yn ddifaddau o feddwol,
yn fan hyn, aeafau'n ôl.**

**Rhys Iorwerth**

**(Trowch y dudalen)**

## Y DDAU DRAETH

**Dim ond ddwy filltir dros y môr
mae *traeth sy'n denu'r galon,
ac rwy'n ei weld dan chwerthin haul,
ond a yw'r gweld yn ddigon?**

**Rwy'n eistedd ar fy nhraeth fy hun
yn edrych dros y tonnau,
ac yn dymuno mynd ryw ddydd
at draeth dy chwerthin dithau.**

**Yn sydyn, fe ddaw'r niwl yn dew
a'r gwynt fel llais yn gwrthod,
ond gwn daw eto siawns ryw ddydd,
a byddaf innau'n barod.**

**Fe nofiaf y ddwy filltir hir
at draeth fy holl freuddwydion
heb wrando ar lais y gwynt na'r glaw,
a chyrraedd fydd yn ddigon.**

**Ceri Dafydd**

***traeth – glan y môr**

**DIWEDD Y PAPUR**